

# Ysgol Gynradd Llandegfan



## *Polisi Moddion*

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017  
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017  
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

### Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

---

Pennaeth:

---

Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol na chytundebol ar athro/athrawes ddarparu na goruchwylio meddyginiaeth na chefnogi anghenion meddygol plentyn. Mae unrhyw ran a gymerir yn gwbl wirfoddol.

Yn ein hysgol cytuna'r Pennaeth a'r staff, gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn yr ysgol os yw ar gael i wneud. Fel arall, disgwylir i rieni fynychu'r ysgol i ddarparu'r meddyginiaeth.

Anogwn rieni drafod amseriad ac amllder y dogn gyda'u meddyg teulu. Gallai fod yn bosibl i'r meddyg teulu ddarparu meddyginiaeth y gellir ei chymryd cyn ac ar ôl ysgol.

Os dymuna'r rhieni i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol yna rhaid iddynt wneud cais ffurfiol drwy gysylltu a'r pennaeth

- Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei gynhwysydd gwreiddiol.
- Rhaid i bob meddyginiaeth fod wedi ei labelu yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl ac amllder y dogn.
- Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i un arall oni bai fod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a oedd ar label yr un gwreiddiol.
- Hysbyswn y rhieni o unrhyw ddifrod i gynhwysyddion.
- Os yw plentyn i gymryd mwy nag un feddyginiaeth, dylid storio pob un mewn cynhwysydd unigol.
- Heblaw am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy'n rhaid eu cadw yn yr oergell a rhai angenrheidiol mewn argyfwng, cedwir pob un arall mewn cwpwrdd/cabinet sydd wedi ei gloi.
- Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ble cedwir yr allwedd i'r cwpwrdd meddygol.
- Hysbysir disgybl o lle cedwir ei feddyginiaeth a chan bwy mae'r allwedd iddo.
- Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei ddyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei ailgyflenwi.

## ANADLYDDION ASTHMA

Bydd meddyginiaeth asthma ar gael yn hawdd ac ni fydd wedi ei gloi. Bydd wedi ei storio mewn man diogel lle nad oes gan ddisgyblion hawl mynediad, e.e. cwpwrdd yr athro/athrawes. Os yw rhieni am i'r disgyblion gario eu hanadlwyr asthma eu hunain, rhaid i'r ysgol dderbyn cais ffurfiol gan y rhieni cyn y gellir caniatáu arfer o'r fath.

Fodd bynnag, mynna'r ysgol:

- a) na ddylai disgyblion gymryd meddyginiaeth asthma dim ond pan fo ei angen
- b) y dylent ei gadw'n ddiogel ar bob achlysur ac nad yw ar gael i unrhyw ddisgybl arall ond hwy eu hunain
- c) bod y disgybl yn ddigon aeddfed a chyfrifol i sicrhau bod ei feddyginiaeth ganddo pan fo ei angen.

## CYNLLUNIAU GOFAL IECHYD UNIGOL

Mae gan rhai plant gofynion meddygol dwys. Yn yr achosion hyn bydd y nyrs ysgol yn trefnu i arbenigwyr creu Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar gyfer y plentyn. Fel rhan o'r cynllun, mae'n bosib bydd aelodau penodedig o'r staff yn derbyn hyfforddiant i ddarparu moddion i blentyn. Eto mae derbyn cyfrifoldeb yn wirfoddol. Mae unrhyw gynllun gofal iechyd unigol sydd wedi cael ei gytuno gan bawb yn disodli'r polisi hwn.

A teacher is not under any legal or contractual obligation either to provide or supervise medication nor support a child's medical requirements. This is done wholly voluntarily.

At our school, the Headteacher and staff, with the governing body's support, agrees to administer medication to pupils at the school if he/she is available. If not, parents are expected to attend the school to give the medication.

We urge that parents discuss both the timing and the frequency of the dose with their family doctor. The family doctor may be able to prescribe medication that can be taken before and after school.

If parents wish the school to administer medication during school hours then they must submit a formal application.

- The school will not accept medication unless it is kept in its original container.
- It is imperative that all medications be clearly labelled and contain the pupil's name and class and frequency of dose.
- Staff should never transfer medicine from its original container to another, unless the original container is damaged. In such instances, the new container should be clearly labelled with all the information contained on the original label. Parents are notified of any damage to containers.
- If a child is to take more than one medicine, each one should be stored in an individual container.
- Apart from asthma inhalers, medicines that have to be stored in a freezer, and those required in an emergency, all others are stored in a closed cupboard/cabinet.
- It is the Headteacher's responsibility to ensure that all members of staff are aware of where the key to the medical cupboard is kept.
- A pupil is notified of where his/her medicine is kept and who has the key.
- If a pupil's medication ends or the date for administering it expires, parents are responsible for re-supplying it.

## ASTHMA INHALERS

Asthma medication is easily accessible and is not sealed. It is stored in a secure location to which pupils have no access, e.g. the teacher's cupboard. If parents wish pupils to carry their own asthma inhalers, the school must receive a formal application from the parents before this request can be acceded to.

However, the school insists:

- a) that pupils should only take medication for asthma when required
- b) that they should keep it safely on every occasion and that it is not available to anybody else
- c) that the pupil is sufficiently mature and responsible to ensure that he/she has the medicine when required.

## INDIVIDUAL HEALTH CARE PLANS

Some children have serious medical needs. In these cases the school nurse will arrange for a specialist to create an individual health care plan for the child. As part of the plan, it is possible that named staff will receive training to provide the child with medication. Again, such responsibilities are voluntary. An individual health care plan agreed by all parties overrules this policy.

